**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/Prif Weinidog of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/FM/1399/13

David Melding AC
Cadeirydd
Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

17eg Ebrill 2013

Annwyl David,

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr 25 Mawrth 2013 ynghylch y materion a godwyd gan y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ynghylch tlodi plant.

Yn y *Rhaglen Lywodraethu* nodwyd sut y byddwn yn mesur ein perfformiad yn erbyn yr heriau hirdymor mawr sy'n wynebu Cymru gan gynnwys ein perfformiad ar drechu tlodi a thlodi plant. Cafodd y mesurau a ddefnyddiwyd mewn strategaethau blaenorol eu hymgorffori yn y fframwaith hwn.

Ochr yn ochr â chylch adrodd blynyddol y *Rhaglen Lywodraethu*, comisiynwyd Ipsos Mori a'r Sefydliad Polisi Newydd i gynnal gwerthusiad manwl o'r Strategaeth Tlodi Plant a'r dull gweithredu strategol ehangach sydd wedi'i ddefnyddio i drechu tlodi ers 2005. Mae'r gwerthusiad hwn yn parhau ond ym mis Mawrth 2013 cyhoeddwyd adroddiad cyntaf yr astudiaeth.

Mae'r adroddiad yn bodoli ochr yn ochr â phrif ddangosyddion y *Rhaglen Lywodraethu* ac yn ystyried ystod ehangach o ddangosyddion a dadansoddiad o dueddiadau i helpu i lywio datblygiadau polisi.

http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/child-poverty-strategy-wales-baseline-indicators/?lang=en

Mae'r adroddiad yn darparu darlun cyffredinol o dlodi plant yng Nghymru, ar sail 23 o ddangosyddion, a sut y mae'r rhain wedi symud ers y flwyddyn sylfaen o 2005. Mae'n gosod y newidiadau yn y dangosyddion yng nghyd-destun ehangach newidiadau economaidd ehangach a datblygiadau polisi perthnasol yng Nghymru a'r DU. Caiff yr adroddiad ei ddiweddaru pan fydd data newydd ar gael yn ystod yr astudiaeth.

Canfu'r adroddiad fod yr amodau economaidd ym mlwyddyn sylfaen 2005 yn ffafriol ar gyfer camau gweithredu i drechu tlodi plant, gyda diweithdra isel a chyfradd tlodi plant o 28 y cant, ond roedd diweithdra a thlodi plant ar gynnydd o'r dyddiad hwn ymlaen. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod y codiadau yng nghredydau treth plant a budd-dal plant a gyflwynwyd yn 2008 yn helpu i esbonio paham na welwyd cynnydd mewn tlodi plant yn ystod blynyddoedd cynnar y dirwasgiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstGweinidog@wales.gsi.gov.uk

Cyfrannodd gostyngiadau wedi hynny yn yr incwm canolrifol a'r trothwy tlodi, wrth i safonau byw cyffredinol ddirywio, at ostyngiad camarweiniol yn y gyfradd tlodi plant. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos mai ychydig o newid yn unig neu ddim newid o gwbl a gafwyd yng nghyfran y plant mewn tlodi cymharol (ar ôl costau tai) ers 2005.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio mai yn nwylo Llywodraeth y DU y mae'r gallu i ddylanwadu ar yr amgylchedd macro-economaidd ac i reoli trethiant a'r system fudd-daliadau a bod y rhain yn ffactorau pwysig iawn sy'n effeithio ar Dlodi Plant.

Yn achos saith o'r 23 o ddangosyddion cafwyd dirywiad sylweddol yn ystadegol, pedwar ym maes Gwaith a bod heb Waith a'r llall yng nghyfran y bobl ifanc nad ydynt 'mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant'. Mae'r adroddiad yn casglu y gellir priodoli llawer o hyn i'r dirywiad cyffredinol mewn amodau economaidd.

Mae pedwar o'r 23 o ddangosyddion yn dangos gwelliant, a hynny ym maes addysg a thai ac mewn damweiniau ffordd, ac nid yw'r 10 sy'n weddill yn dangos unrhyw newid o gwbl.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio mai polisïau gweddol ddiweddar sy'n cymryd yn hirach i ddwyn ffrwyth yw llawer o bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru a allai gael effaith ar dlodi plant. Mae llawer o'r polisïau hyn yn ymwneud â chyfranogiad helaethach yn y farchnad lafur, y blynyddoedd cynnar ac addysg. Mae'n bosibl y bydd yn cymryd rhywfaint o amser iddynt gael eu hadlewyrchu mewn ystadegau agregedig.

Byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiad yn yr hydref 2013 yn erbyn yr amcanion a'r mesurau a gynhwysir yn Strategaeth Tlodi Plant 2011 fel sy'n ofynnol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Trafodwyd perfformiad yr Alban mewn perthynas â lefelau tlodi plant yn y boblogaeth. Mae'n debygol bod llawer o ffactorau ar waith ym mherfformiad yr Alban yn erbyn dangosyddion tlodi ond un o'r ffactorau amlwg yn hyn o beth yw perfformiad gwell marchnad lafur yr Alban, sydd wedi'i adlewyrchu yn lefelau is aelwydydd di-waith. Y dylanwadau yn hyn o beth yn ôl pob tebyg yw proffil cymwysterau cryfach y boblogaeth, y ffaith bod cyfran uwch o bobl yn byw mewn dinasoedd mawr (lle mae cynhyrchiant a chyflogau yn tueddu i fod rhywfaint yn uwch nag mewn mannau eraill) a nerth parhaus yr economi leol yn rhai o ardaloedd yr Alban. Mae rhai o'm swyddogion yn bwriadu ymweld â Llywodraeth yr Alban yn y dyfodol agos a byddant hefyd yn ystyried a fyddai modd i wersi pellach a ddysgir gael eu cymhwyso i Gymru.

Yn y drafodaeth a fu ar dlodi plant yng nghyfarfod Cydbwyllgor y Gweinidogion (Domestig) ym Mawrth cafwyd cyfle i drafod ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ffyrdd newydd o fesur tlodi plant a gwaith y Comisiwn newydd ar Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant. Bu modd i ni dynnu sylw Gweinidogion Llywodraeth y DU at bryderon Llywodraeth Cymru am y mesur aml-ddimensiwn nwydd arfaethedig ac at y ffaith bod angen mwy o wybodaeth gan Lywodraeth y DU ar y mesur a'i effeithiau ar wasanaethau datganoledig yng Nghymru. Tynnodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg sylw at bwysigrwydd y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant gan nodi cynllun cyfathrebu clir ac amserlen ar gyfer ennyn cydweithrediad Llywodraeth Cymru, gan roi digon o amser i Weinidogion Cymru ystyried effeithiau adroddiad y Comisiwn ar eu priod feysydd cyfrifoldeb datganoledig.

Fel y gwyddoch, penodais Huw Lewis fel y Gweinidog sy’n gyfrifol am Gymunedau a Threchu Tlodi. Mae pwyslais penodol ar bolisi tlodi plant o hyd yn ei bortffolio.

Yn gywir

**CARWYN JONES**